**MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH RHWNG YR YSGRIFENNYDD GWLADOL A GWEINIDOGION CYMRU**

**Y SWYDDFA CYFLENWI GWELL RHEOLEIDDIO**

## Egwyddorion

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi sut y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru'n cydweithio wrth arfer eu swyddogaethau priodol o dan Rannau 1 a 2 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (Deddf RES), fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau etc.) 2012 , ym maes gorfodi rheoleiddiol.

*Rhwymedigaeth Statudol*

Mae yna rwymedigaeth statudol i ymrwymo i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn o dan Erthygl 4(3) o Orchymyn y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (Diddymu a Throsglwyddo Swyddogaethau etc.) 2012 [1].

Cafodd y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) ei diddymu a chafodd ei swyddogaethau oedd yn parhau eu trosglwyddo i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) ar 1 Ebrill 2012, i gael eu cyflawni gan y Swyddfa Cyflenwi Gwell Rheoleiddio.

*Swyddfa Cyflenwi Gwell Rheoleiddio (BRDO)*

Bydd y BRDO, a ffurfiwyd y tu mewn i'r BIS fel uned â hunaniaeth ar wahân, yn cyflawni swyddogaethau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i:

- Helpu i symleiddio'r system rheoleiddio;
- Ysgogi gwelliannau i'r ffordd y cyflenwir rheoleiddio sy'n cynorthwyo â thwf;
- Darparu fforwm i ymgysylltu â byd busnes wrth wraidd y system rheoleiddio;
- Darparu cyngor ar gyflenwi rheoleiddio y tu mewn i'r llywodraeth ganolog; a
- Pharhau i weithredu'r cynllun Prif Awdurdodau.

Bydd y BRDO yn gweithio ar draws ffiniau daearyddol a, lle bynnag y bo modd, yn cadw'r arferion gwaith oedd yn bodoli rhwng yr LBRO a Gweinidogion Cymru. Mae'r newid statws o Gorff Cyhoeddus Anadrannol yn newid elfennau o'r perthnasoedd a fodolai gynt pan oedd y maes gwaith hwn yn cael ei gyflenwi gan yr LBRO. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn rhoi'r BRDO mewn safle er mwyn iddi allu gweithio'n effeithiol lle mae polisïau ac arferion gwaith yn gyson rhwng Gweinidogion y Deyrnas Unedig a Gweinidogion Cymru, ond hefyd lle bo gwahaniaethau oherwydd polisïau penodol sy'n ymwneud â materion datganoledig.

*Goruchwylio gweithgareddau (dulliau a ddefnyddir)*

Bydd Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru'n goruchwylio'n effeithiol yr holl waith a wneir gan y BRDO gan ddefnyddio nifer o ddulliau, gan gynnwys:

- Cynllun busnes blynyddol a gynhyrchir gan y BRDO ar ei holl weithgareddau;
- Adroddiad blynyddol sy'n rhoi crynodeb o'r cynnydd dros y 12 mis blaenorol;
- Cynllun Gwaith blynyddol yn cefnogi gweithgarwch ychwanegol y BRDO yng Nghymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru;
- Cytundeb Gweithredu rhwng y BRDO a'r BIS;

[1] O.S. 2012/246

- Bodolaeth Paneli Arbenigwyr o dan arweiniad y BRDO, gan gynnwys Fforwm Rheoleiddwyr Cymru (a gyd-noddir gyda Llywodraeth Cymru), a'r defnydd ohonynt;
- Briffiad a anfonir at Weinidogion a/neu y mae Gweinidogion yn gofyn amdano; a
- Diweddariadau i Weinidogion ar faterion sy'n ymwneud â'r cynllun Prif Awdurdodau, gan gynnwys ystadegau rheolaidd ar y nifer sy'n defnyddio'r cynllun a materion cysylltiedig.

Bydd dogfennau allweddol, gan gynnwys cynllun busnes ac adroddiadau blynyddol y BRDO, yn cael eu cyhoeddi. Lle bwriedir dogfennau'n benodol i Weinidogion Cymru, bydd y BRDO yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y fformat gofynnol ar gyfer y wybodaeth cyn eu cynhyrchu.

*Goruchwylio gweithgareddau (arferion gwaith)*
Bydd yr arferion gwaith a ddefnyddir gan y BRDO yn cael eu cofnodi i gynnwys manylion sut mae Gweinidogion Cymru'n cael eu cynrychioli, gan gynnwys:

- Manylion ymarferol o'r ffordd y mae polisïau sy'n ymwneud â gorfodi rheoleiddiol mewn meysydd datganoledig yn cael eu datblygu;
- Y gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn i gyflawni rhwymedigaethau'r Cynllun Gwaith;
- Diweddariadau rheolaidd i Weinidogion Cymru ar orfodi rheoleiddiol;
- Sut y bydd y BRDO a Gweinidogion Cymru'n cydweithio trwy Baneli Arbenigwyr y BRDO (gan gynnwys Fforwm Rheoleiddwyr Cymru);
- Sut y bydd Grŵp Llywio Cynrychioladol (RSG) y BRDO yn cynrychioli buddiannau Gweinidogion Cymru a chefnogi buddiannau Cymru ar faterion cyffredinol yn ymwneud â gorfodi a chyflenwi rheoleiddio;
- Manylion y mecanwaith y bydd Fforwm Rheoleiddwyr Cymru yn cyfrannu at y Grŵp Llywio Cynrychioladol drwyddo;
- Prosesau ar gael i Weinidogion Cymru fynd at Brif Weithredwr y BRDO i ofyn am ddiweddariadau a gwybodaeth. (Y bwriad yw y bydd gan Weinidogion Cymru hawliau cyfartal i fynd at y Prif Weithredwr ar faterion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru i'r rhai a fydd gan Weinidogion y Deyrnas Unedig ar faterion annatganoledig.)
- Staffio mewn meysydd cyflenwi penodol i Gymru, sef;
    - y bydd aelod o uwch dîm rheoli'r BRDO yn gyfrifol am gyflenwi'r Rhaglen Waith i Gymru, ac yn cynrychioli buddiannau Llywodraeth Cymru ar lefel uchel yn nhîm rheoli'r BRDO,
    - y caiff y Rhaglen Waith ei goruchwylio gan 'Swyddog Cymru' dynodedig, ac y caiff ei chyflenwi gan amrywiaeth o arbenigwyr y BRDO; ac
    - y caiff y lefelau staffio y bydd eu hangen i gynorthwyo â rhaglen waith Cymru eu hystyried ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Gwaith blynyddol.

*Y Gymraeg*
Bydd y BRDO yn dilyn yr egwyddorion a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y BIS. Os yw'r BRDO, ar y cyd gyda Gweinidogion Cymru, yn penderfynu darparu gwybodaeth yn Gymraeg yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol yn statudol, neu os yw'n ofynnol iddi wneud hynny, byddir yn cytuno ar hyn a'i gofnodi fel rhan o'r Cynllun Gwaith, a chaiff ei ariannu gan y BRDO.

*Eiddo Deallusol*
Bydd yr holl Hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill ar waith a wneir neu a gomisiynir gan y BRDO yn eiddo i hawlfraint y Goron a chaiff aseiniadau priodol gydag unrhyw gontractwyr eu sicrhau.

**Cyllid**
Mae'r Ddeddf RES (fel y'i diwygiwyd yn 2012) yn rhoi i Weinidogion Cymru'r gallu i gyllido'r Swyddfa Cyflenwi Gwell Rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau penodol i Gymru. Caiff trefniadau cyllido blynyddol eu cofnodi yn y Cynllun Gwaith, gan nodi manylion y gweithgarwch sydd i gael ei gyflawni a'r costau cysylltiedig. Bydd y Cynllun Gwaith yn gyson â meysydd allweddol cyflenwi rhaglen y BRDO, gyda chysylltiadau clir â pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru. Bydd y Cynllun Gwaith blynyddol yn rhoi eglurder ar weithgarwch penodol y BRDO yng Nghymru, sy'n ymwneud â Chymru ac sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, ac yn gosod ffiniau clir ar gyfer y gweithgarwch hwnnw. Yn benodol, bydd y Cynllun Gwaith a'r dogfennau cysylltiedig yn:

- Cydnabod statws y BRDO fel rhan o lywodraeth ganolog y Deyrnas Unedig;
- Cynnwys disgrifiad manwl o'r hyn mae'r cyllid yn talu amdano, gan gynnwys y rhaniad o ran adnoddau rhwng y rhaglen a staffio i gyflenwi'r rhaglenni a nodir;
- Nodi mesurau effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer cynllunio busnes, monitro perfformiad ac asesu; a
- Sefydlu amserlen fanwl gyda cherrig milltir ar gyfer rhyddhau cyllid.

Caiff telerau ac amodau manwl ar gyfer y cyllid y cyfeirir ato uchod eu cyhoeddi er mwyn tynnu sylw at y canlyniadau y cytunir arnynt a'r ddarpariaeth adnoddau i'w cyflawni. Bydd y telerau ac amodau:

- Yn cael eu seilio ar y fformat a ddefnyddid gynt gan yr LBRO;
- Yn cael eu clirio gydag adrannau cyfreithiol y BIS a Llywodraeth Cymru cyn cytuno arnynt;
- Yn cynnwys manylion y Gyfarwyddiaeth arweiniol yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y berthynas â'r BRDO, gan gynnwys pobl gyswllt a enwir; ac
- Yn cynnwys gweithdrefnau i sicrhau y bydd cyfrifoldebau a llinellau cyfathrebu'n aros yn effeithiol os bydd newidiadau i Weinidogion a Pheirianwaith Llywodraeth (sicrhau parhad busnes drwy gydol cyfnodau o newid).

**Llywodraethu**

*Adolygiad*

Caiff adolygiad blynyddol o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei gyflawni gan Brif Weithredwr y BRDO a Chyfarwyddwr y Grŵp Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru. Caiff yr adolygiad hwn ei gofnodi gan roi, man lleiaf, y canlyniad a'r ffactorau a ystyriwyd wrth benderfynu a yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn dal i fod yn addas at y diben.

*Diwygiadau*

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ofyniad statudol; felly rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gytuno ar ddiwygiadau iddo.

*Arferion gwaith*

Bydd yr arferion gwaith a fodolai rhwng yr LBRO a Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio fel sail i'r rheiny a sefydlir rhwng y BRDO (fel uned o'r BIS) a Llywodraeth Cymru. Bydd eithriadau i hyn yn digwydd lle bo cyfrifoldebau statudol wedi newid yn dilyn diddymu'r LBRO. Mae manylion helaethach am y newidiadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad A. Deellir y bydd mân newidiadau i arferion gwaith, gan gynnwys newidiadau i gyfrifoldebau swyddogion, yn digwydd dros amser. Bydd Prif Weithredwr y BRDO a Chyfarwyddwr y Grŵp Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru'n cyd-gytuno ar y newidiadau hyn a'u cofnodi.

*Datrys anghydfodau*

Dylid ymdrin ag unrhyw anghydfod sy'n codi wrth arfer y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gan ddilyn y protocol osgoi a datrys anghydfodau a nodir mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol diwygiedig y cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon arno ar 8 Mehefin 2011[2].

---

[2]http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/8junememoofunderstanding/?skip=1&lang=cy

## ATODIAD A

### Cyfrifoldebau statudol

Gwnaeth Erthygl 4(1)(a) o, ac Atodlen 1 i, Orchymyn 2012[3] ddiwygiadau i'r Ddeddf RES a sefydlodd trosglwyddo swyddogaethau'r LBRO o dan Rannau 1 a 2 o'r Ddeddf RES i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Isod ceir dadansoddiad o effaith ymarferol hyn ar swyddogaethau'r BRDO yng Nghymru o 1 Ebrill 2012 ymlaen.

### Arferion gwaith

Bydd yr arferion gwaith a fodolai gynt rhwng yr LBRO a Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio fel sail i'r rheiny a sefydlir rhwng y BRDO a Llywodraeth Cymru. Lle bo cyfrifoldebau statudol wedi newid yn dilyn diddymu'r LBRO, bydd y BRDO yn llunio gweithdrefnau newydd. Bydd y gweithdrefnau newydd hyn yn cynnwys (ond ni fyddant yn gyfyngedig i):

- Brosesau ymgynghori o dan Adran 6 o'r Ddeddf RES;
- Cynllun gwaith rhwng y BRDO a Llywodraeth Cymru i egluro safle gwaith yr holl bartïon o dan Adran 10 o'r Ddeddf RES;
- Mecanweithiau i'r holl bartïon yn sicrhau ymgynghori effeithiol a chyhoeddi rhestri blaenoriaethau'n brydlon o dan Adran 11 o'r Ddeddf RES;
- Prosesau ar gyfer cytuno ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda rheoleiddwyr cenedlaethol, a sut y caiff hyn ei gyflawni'n ymarferol, gan gynnwys y gofyniad newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru lle bo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â mater datganoledig o dan Adran 12 o'r Ddeddf RES;
- Prosesau i annog Gweinidogion Cymru i gynnig cyfarwyddyd i'r Ysgrifennydd Gwladol – gan ychwanegu gwerth trwy gyd-greu polisi lle bo hyn yn briodol o dan Adran 16 o'r Ddeddf RES;
- Canllawiau ar gyfer trefniadau cyllido i Weinidogion Cymru ddarparu grantiau amodol i'r BRDO o dan Baragraff 11 o Atodlen 1 i'r Ddeddf RES;
- Sut y cyhoeddir cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol i gydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer ymgynghori cilyddol a gofynion cydsynio, gan gynnwys pryd y byddai'n briodol cyhoeddi cyfarwyddyd ar faterion datganoledig ac annatganoledig ar yr un pryd;
- Prosesau y gall BRDO gynghori Gweinidogion Cymru ar Faterion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru drwyddynt, gan gynnwys cytuno ar arferion gwaith safonol, sut yr ymdrinnir â newidiadau i bersonél ar lefel Gweinidogion a pholisi, a sut y caiff cyfrinachedd cyngor i Weinidogion Cymru ei sicrhau;
- Gweithdrefnau ar gyfer y cynllun Prif Awdurdodau, sef:
  - Proses y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru drwyddi cyn rhagnodi, trwy orchymyn, weithredu a ystyrir neu nas ystyrir yn weithredu gorfodi o dan adran 28(6) o'r Ddeddf RES at ddibenion y cynllun Prif Awdurdodau.
  - Proses y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru drwyddi cyn cytuno ar eithriadau i weithredu gorfodi o dan adran 28 (fel sy'n ofynnol gan adran 29(1))

[3] O.S. 2012/246

- Proses ar gyfer ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi cyfarwyddyd ynglŷn â chodi ffioedd mewn perthynas â'r cynllun Prif Awdurdodau, fel sy'n ofynnol gan adran 33(5) o'r Ddeddf RES.

Yn ychwanegol at y gofynion statudol hyn o ran cydsyniad yn y Ddeddf RES, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar ddatblygu polisi'n ymwneud â Phrif Awdurdodau'n fwy cyffredinol.

Darparodd **Adran 6 o'r Ddeddf RES** (cyn 2012) bŵer i'r LBRO roi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr ar sut i arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol. Mae'r pŵer hwn bellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, fel bo'n briodol, gan Weinidogion Cymru.

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

- Fel o'r blaen, rhaid i unrhyw awdurdod lleol sy'n cael y fath gyfarwyddyd "roi sylw" iddo wrth arfer y swyddogaethau mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hwy;
- Fodd bynnag, Gweinidogion Cymru, yn hytrach na'r LBRO, sydd bellach â'r swyddogaeth o roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol Cymru ynglŷn â sut i arfer y swyddogaethau rheoleiddio hynny sydd ganddynt sy'n ymwneud â materion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru. Bydd y BRDO yn cynnig cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru wrth iddynt ddefnyddio'r swyddogaeth hon (wedi'i seilio ar hwnnw a ddarparwyd gynt gan yr LBRO mewn amgylchiadau tebyg yn y gorffennol);
- Cyn rhoi'r fath gyfarwyddyd mewn perthynas â materion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â gwahanol bartïon, gan gynnwys unigolion 'priodol'. Bydd Gweinidogion Cymru'n gweithredu ar y sail y dylid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol fel 'unigolyn priodol' yn yr achosion hyn. Bydd y BRDO yn datblygu mecanwaith ar gyfer yr ymgynghori hwn a bydd pob parti'n cytuno arno.
- Fel o'r blaen, caiff cyfarwyddyd o dan adran 6 ei gyhoeddi. Bydd y mecanweithiau sy'n bodoli eisoes i gyhoeddi'r fath gyfarwyddyd yn parhau, a chânt eu hadolygu maes o law i weld pa mor effeithiol ydynt.
- Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag 'unigolion priodol' cyn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 6 o'r Ddeddf RES (yr LBRO oedd yn gwneud hyn o'r blaen). Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar y sail y dylid ystyried Gweinidogion Cymru yn unigolion priodol ac, felly, bod yna ofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i'r fath gyfarwyddyd gael ei gyhoeddi. Bydd y BRDO yn datblygu mecanwaith ar gyfer yr ymgynghori hwn a bydd pob parti'n cytuno arno.

Darparodd **Adran 10 o'r Ddeddf RES** (cyn 2012) bŵer i'r LBRO roi cyngor neu wneud cynigion i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau lleol Cymru yn arfer eu swyddogaethau rheoleiddio, fel yr oeddent yn ymwneud â materion oedd yn dod o dan Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer hwn i roi cyngor gan yr Ysgrifennydd Gwladol bellach.

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

- Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol, trwy swyddogion, y pŵer i roi cyngor neu wneud cynigion i Weinidogion Cymru ynghylch materion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru. Nid yw hyn yn newid gwirioneddol i arferion gwaith. Cyn diddymu'r LBRO gallai'r Ysgrifennydd Gwladol gynnig cyngor i Weinidogion Cymru ar y fath faterion er mwyn sicrhau bod polisïau'n effeithiol ar draws ffiniau daearyddol a, lle bynnag yr oedd yn bosibl, nad oeddent yn gwrthweithio ei gilydd;
- Mae gan Weinidogion Cymru fynediad at y BRDO ar gyfer materion sydd o fewn eu pwerau. Mae'r rhan fwyaf o'r personél yn yr LBRO wedi trosglwyddo, o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau, i'r BIS ac yn gweithio yn y BRDO. Felly mae gan Weinidogion Cymru fynediad o hyd i'r un lefel o arbenigedd ag oedd ar gael iddynt cyn diddymu'r LBRO.
- Bydd Gweinidogion Cymru'n cytuno ar Gynllun Gwaith blynyddol wedi'i gyllido gyda'r BRDO. Yn hyn o beth byddant yn cytuno ar feysydd gwaith penodol maent eisiau bwrw ymlaen â hwy ar y cyd gyda'r BRDO sy'n ymwneud â materion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru.

Gosododd **Adran 11 o'r Ddeddf RES** (cyn 2012) ddyletswydd ar yr LBRO i baratoi a chyhoeddi rhestri'n nodi'r materion hynny y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr roi blaenoriaeth iddynt wrth ddyrannu adnoddau i'w swyddogaethau rheoleiddiol. Ni allai'r LBRO gyhoeddi rhestr mewn perthynas ag awdurdodau lleol Cymru heb ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a chael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd i baratoi rhestri blaenoriaethau bellach yn gyfrifoldeb ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, fel bo'n briodol.

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

- Mae dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi rhestr o flaenoriaethau rheoleiddio mewn perthynas ag awdurdodau lleol Lloegr; ac
- Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi rhestr o flaenoriaethau rheoleiddio mewn perthynas ag awdurdodau lleol Cymru;
- Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ragnodi blaenoriaethau gorfodi mewn perthynas â swyddogaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol waeth a yw'r rhain yn ymwneud â materion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru'n unig ai peidio;
- Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi'r fath restr;
- Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn cyhoeddi'r fath restr; a
- Bydd y BRDO yn datblygu mecanweithiau ar gyfer ymgynghori effeithiol a chyhoeddi mewn perthynas â rhestri o dan adran 11 o'r Ddeddf RES ac yn cytuno arnynt gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.

Roedd **Adran 12 o'r Ddeddf RES** (cyn 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i'r LBRO ymrwymo i Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda rheoleiddwyr cenedlaethol a enwir, gan nodi sut y byddant yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r gofyniad hwn bellach ar yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

- Mae'r prosesau sy'n ymwneud â chreu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth (sy'n berthnasol i adran 12 o'r Ddeddf RES) yn aros yn ddigyfnewid, gan fwyaf;
- O 1 Ebrill 2012 ymlaen caiff y rhain eu llunio gan y BRDO a'u cyhoeddi ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd y BRDO yn rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol sut y caiff y broses hon ei chyflawni o ddydd i ddydd a chytunir ar weithdrefn safonol;
- Mae yna ofyniad newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru lle bo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â mater sy'n dod o dan Weinidogion Cymru;
- Mae'r gofyniad hwn yr un mor berthnasol i Femoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd ac wrth ddiwygio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth sy'n bodoli eisoes; ac
- Felly mae gan Weinidogion Cymru'r cyfle i drafod cyn i Femoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd neu ddiwygiedig ddod i rym.

Darparodd **Adran 16 o'r Ddeddf RES** cyn 2012 y gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo neu roi cyfarwyddyd i'r LBRO mewn perthynas â materion sy'n dod o dan Weinidogion Cymru. O 1 Ebrill 2012 ymlaen caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf RES i'r graddau y bo'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â'r fath faterion.

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

- Gall Gweinidogion Cymru gynnig cyfarwyddyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o hyd a chânt eu hannog i wneud hynny at ddibenion cyfnewid arfer da, defnyddio'r buddion a welir ar draws ffiniau daearyddol, ac ychwanegu gwerth trwy gyd-greu polisi lle bo hyn yn briodol.
- Daeth pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo o dan yr adran hon o'r Ddeddf RES i ben ar 1 Ebrill 2012 gan y byddai'n amhriodol i Weinidogion Cymru fod â phŵer i gyfarwyddo'r Ysgrifennydd Gwladol (yn yr un ffordd ag yr oedd gan Weinidogion Cymru o'r blaen y pŵer i gyfarwyddo Corff Cyhoeddus Anadrannol).

Mae **Rhan 2 o'r Ddeddf RES** yn ymdrin ag elfennau'r Ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Phrif Awdurdodau. Cafodd yr elfennau hyn i gyd eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Ebrill 2012.

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

- Gan mai ychydig o ran yn y materion hyn oedd gan Weinidogion Cymru, ac sydd ganddynt o hyd, bach iawn fydd y newidiadau i'r arferion gwaith blaenorol; a
- Chan nad oes unrhyw ddiwygiad wedi cael ei wneud i'r mannau lle mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru, neu ymgynghori â hwy cyn arfer pwerau sy'n ymwneud â Phrif Awdurdod, mae'r holl brosesau blaenorol yn parhau.

Rhoddodd **Paragraff 11 o Atodlen 1 i’r Ddeddf RES** cyn 2012 bŵer i Weinidogion Cymru ddarparu grantiau amodol i’r LBRO. O 1 Ebrill 2012 ymlaen gall Gweinidogion Cymru gyllido’r Swyddfa Cyflenwi Rheoleiddio Gwell mewn perthynas â gweithgareddau penodol i Gymru.

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

- Nid yw’r gallu sydd gan Weinidogion Cymru i gynnig grantiau ar gyfer gwaith y BRDO sy’n ymwneud â Chymru’n benodol wedi newid;
- Caiff Cynllun Gwaith ei lunio rhwng y BRDO a Llywodraeth Cymru. Mae un enghraifft o’r Cynllun Gwaith 2011-12 rhwng yr LBRO a Llywodraeth Cymru ynghlwm yn Atodiad B. Caiff y ddogfen hon ei defnyddio fel sail i’r cytundeb newydd.

**ATODIAD B**

**Cynllun Gwaith ar gyfer 2011-12**

Gweler yr hyn sydd ynghlwm.